## Adran 9

**Gyrru a Chludiant**
Ceir gwybodaeth am yrru yn y DU gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau [DVLA]:

**DVLA**
Abertawe
SA99 1AD.
**www.dvla.gov.uk**

**Dogfennau cyfreithlon ar gyfer gyrru**
**Gyrru yn y DU** – Os ydych chi'n berchennog ar gerbyd modur [car, fan neu foto beic] y mae'n hanfodol fod y dogfennau canlynol gennych chi. Mae'r gosb am beidio â chael unrhyw un o'r rhain yn uchel ac fe allech gael eich gwahardd rhag gyrru yn y DU.

• **Trwydded yrru ddilys** – Os oes gennych drwydded yrru C.E. nid oes angen i chi ei newid am drwydded y DU. Gall deiliaid trwyddedau gyrru nad ydynt yn rhai UE yrru am flwyddyn ar ôl dod i mewn i'r DU. Ar ôl blwyddyn mae'n rhaid i chi gymryd prawf gyrru. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r DVLA fel uchod.

Os nad ydych wedi dal trwydded yrru ddilys erioed ac eisiau dysgu sut i yrru mae'n rhaid i chi wneud cais am drwydded Yrru Dros Dro i ddechrau trwy gael ffurflen D1 o Swyddfa'r Post. Ni allwch yrru heb drwydded yrru dros dro os nad oes person arall gyda chi sydd â thrwydded yrru am 3 blynedd o leiaf, eich bod dros 21 oed ac yn arddangos platiau 'L' neu 'D' ar eich cerbyd.

• **Tystysgrif MOT** - mae angen hyn ar gyfer pob car dros 3 oed. Mae'r ddogfen yma yn profi fod eich cerbyd yn addas i'r ffordd fawr. Y mae'n ddilys am flwyddyn ar ôl y dyddiad dosbarthu. Gallwch drefnu i'ch car gael prawf MOT mewn modurdai sydd yn ganolfannau profi awdurdodedig. Codir tâl am y prawf yma. Gweler y Cyfeiriadur Ymholiadau (Adran 2).

• **Disg treth** – y mae'n orfodaeth gyfreithiol arnoch i brynu ac arddangos disg-treth yn sgrîn wynt eich cerbyd modur. Gallwch gael ffurflen gais ar gyfer disg treth yn Swyddfa'r Post neu trwy gysylltu â'r DVLA. Er mwyn cael disg-treth mae'n rhaid i chi ddangos tystysgrif MOT, dogfennau cofrestru car a thystysgrif yswiriant. Gallwch dalu dau daliad am chwe mis yr un neu un taliad am ddeuddeg mis. Fe all cost disg-treth godi bob blwyddyn. Y mae'n rhatach ar y cyfan i dalu am 12 mis ar y tro.

• **Yswiriant** – y mae'n orfodaeth gyfreithiol arnoch i yswirio eich cerbyd. Mae llawer o gwmnïau preifat yn gwerthu yswiriant cerbydau modur am gostau amrywiol; gallwch hefyd gael yswiriant cerbyd modur o'r prif Swyddfeydd Post.

Pwysig – y cerbyd sydd wedi ei yswirio, **nid** chi. Os ydych yn gwerthu eich cerbyd modur, cysylltwch â'r cwmni yswiriant i weld a oes gennych hawl i gael rhywfaint o'r arian yr ydych wedi ei dalu yn ôl.

**Rheolau'r Ffordd Fawr**
Mae yna lawer o reolau am yrru yn y DU. Mae'r rhain i'w cael yn llyfryn Rheolau'r Ffordd Fawr sydd ar gael o siopau llyfrau neu www.dvla.org.uk/ neu www.direct.gov.uk/Motoring/fs/en

**Gwybodaeth gyffredinol am yrru yn y DU**

• Mae'n rhaid i chi **yrru ar y chwith**. Byddwch yn arbennig o ofalus wrth droi i'r dde.
• Wrth y rhan fwyaf o gyffyrdd, fe fydd yna arwydd yn dweud wrthych Stop neu 'Give Way' (Ildiwch), neu farciau Ildiwch ar y ffordd (llinellau dotiog gwynion a thriongl). Mae'n rhaid i chi ufuddhau i'r arwyddion hyn.
• Wrth drofannau, ildiwch i draffig sy'n dod o'r dde, os nad yw marciau ar y ffordd yn nodi'n wahanol. Gyrrwch o gwmpas yn null cloc a rhowch arwydd i'r chwith wrth i chi ddod at eich allanfa.
**• Mae'n anghyfreithlon gyrru dan ddylanwad alcohol. Mae'n well peidio â gyrru o gwbl os ydych yn yfed.**
• Y cyfyngau cyflymder arferol yw:

o Mewn ardal adeiledig - 30mya (48cm/a)

o Ar gyrion ardal adeiledig - 40mya (64cm/a)

o Ar ffordd fawr - 60mya (96cm/a)

o Ar ffordd ddeuol - 60mya

o Ar draffordd - 70 mya (112cm/a)

o Fe all cyfyngiadau cyflymder fod yn is mewn rhai llefydd – gwyliwch am arwyddion.

• Os ydych mewn **damwain** mae'n rhaid i chi stopio a rhoi eich enw, cyfeiriad a manylion yswiriant i'r gyrrwr/gyrwyr eraill dan sylw. Os oes unrhyw un wedi cael anaf neu'r ffordd wedi'i blocio mae'n rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r heddlu.
• Ar **draffyrdd**, cadwch i'r chwith os nad ydych yn goddiweddyd. Defnyddiwch y llain galed mewn argyfwng yn unig, a rhowch eich goleuadau rhybudd ymlaen. Gallwch ffonio am gymorth o deleffonau argyfwng sydd wedi eu lleoli bob 1500m.
• Mae yna sawl math gwahanol o groesfannau cerddwyr ac mae gan bob un gyfreithiau penodol sy'n rheoli eu defnydd. (Gweler Rheolau'r Ffordd Fawr).

**Ffonau symudol**

Mae'n **anghyfreithlon defnyddio ffôn symudol** â llaw tra'n gyrru yn y DU.

**Gwregysau diogelwch**

Mae'n **rhaid i chi a'ch teithwyr wisgo gwregysau diogelwch** os oes rhai wedi'u gosod – yn nhu blaen a thu ôl y car. Mae'n rhaid i blant iau fod mewn seddau car wedi'u gosod yn gywir.

**Yfed a Gyrru**

**Peidiwch ag yfed a gyrru** – mae'n anghyfreithlon a bydd yn amharu'n ddifrifol ar eich crebwyll a'ch gallu.

Bydd alcohol yn

- rhoi synnwyr gau o hyder i chi
- lleihau cydsymudiad ac yn arafu ymateb
- effeithio ar grebwyll o gyflymder, pellter a pherygl
- lleihau eich gallu i yrru, hyd yn oed os ydych o dan y terfyn cyfreithlon
- cymryd amser i adael eich corff; fe allech fod yn anabl i yrru gyda'r nos ar ôl yfed amser cinio, neu yn y bore ar ôl yfed y noson cynt. Os ydych yn mynd i yfed, trefnwch gyfrwng arall o gludiant.

**Drannoeth!**

Mae llawer o bobl sy'n yfed a gyrru yn cael eu dal drannoeth ar ôl iddynt fod yn yfed. Gan ei bod yn cymryd sawl awr i alcohol ddiflannu o'r corff, fe allai rhywun a fu'n yfed alcohol yn hwyr y noson cynt fod dros y terfyn cyfreithlon y bore wedyn hefyd. Hyd yn oed os ydyw o dan y terfyn cyfreithlon, gallai person gael ei effeithio gan yr alcohol yn ei gorff yr un fath.

**Meddw wrth yrru cerbyd modur**

Os ydych wedi bod yn yfed ac yn cael eich darganfod yn cysgu mewn cerbyd modur fe allech gael eich erlyn yr un fath. Ni fydd dweud nad oeddech yn bwriadu gyrru'r cerbyd yn amddiffyniad cyfreithiol.

**Os cewch eich collfarnu o yfed a gyrru byddwch yn**

- colli eich trwydded am o leiaf 12 mis (a allai olygu colli eich swydd)
- wynebu dirwy uchaf o £5,000
- wynebu hyd at chwe mis yn y carchar
- talu hyd at dair gwaith gymaint am yswiriant car

**Cyffuriau a moddion**

**NI DDYLECH** yrru dan ddylanwad cyffuriau neu foddion. Gwiriwch y cyfarwyddiadau neu holwch eich meddyg neu'ch fferyllydd. Mae defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn beryglus dros ben. Peidiwch byth â'u cymryd cyn gyrru: ni ellir rhagweld yr effeithiau, ond gallant fod yn fwy difrifol nag alcohol hyd yn oed a gallant achosi damweiniau ffordd marwol neu ddifrifol.

**Cludiant yn Wrecsam**

Am wybodaeth am fysiau trwy ardal Wrecsam i gyd - ffoniwch **01978 266166** neu ffoniwch gwmni bysiau Arriva ar **0870 608 2 608**

Mae National Express yn gwmni coetsys trwy'r DU gyfan sy'n cynnig gwasanaethau coetsys o Wrecsam i amrywiaeth eang o lefydd yn y DU gan gynnwys meysydd awyr. Ffoniwch **08705 808080**

Mae gan Wrecsam ddwy brif orsaf drenau:
Gorsaf Gyffredinol Wrecsam a Gorsaf Ganolig Wrecsam. Am fwy o wybodaeth ffoniwch **0845 748 49 50**

Mae gan Wrecsam hefyd nifer fawr o gwmnïau tacsi preifat.
Gweler y Cyfeiriadur Ymholiadau o dan 'Taxi & Private Hire'